



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Budd i'r Gymuned

Helpu Cyflenwyr i Sicrhau'r Gwerth Gorau am  
Arian Cymru



ISBN 978 0 7504 6903 6

© Hawlfraint y Goron 2011

WG14341



# Budd i'r Gymuned

## Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru

Ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gwneir buddsoddiad sylweddol bob blwyddyn yn y gwaith o gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith allanol. Mae Llywodraeth y Cynulliad, y sector cyhoeddus ehangach a rhanddeiliaid allweddol eraill yn edrych yn barhaus am ffyrdd o sicrhau mwy o fudd o'r buddsoddiad hwn, ac un o'r prif amcanion fu sicrhau budd i gymunedau lleol yn sgil ein gweithgarwch caffael.

Yn aml cysylltir caffael cynaliadwy â materion amgylcheddol yn bennaf, ond mae yna bwyslais yn awr ar fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac economaidd. Drwy gynnwys 'budd i'r gymuned' neu 'ofynion cymdeithasol' yn y broses o ystyried caffael yn y sector cyhoeddus, y nod yw sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael eu cadw mewn cof wrth drafod tendrau contractau adeiladu, gwasanaethau neu gyflenwadau.

Nod y canllaw hwn yw helpu'r rheini sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gynnig am contractau cyhoeddus i ddeall yr hyn a olygir wrth fudd i'r gymuned, a rhoi gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael i'ch helpu a'ch cefnogi yn eich gwaith cyflenwi.



# Y Broses Dendro

## 1. Y Cam Cyn-gymhwyso

Gall cleientiaid ofyn am fanylion eich profiad a/neu eich ymrwymiad i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau lleol ar y cam hwn mewn unrhyw broses dendro.

## 2. Y Cam Tendro

Bydd yn bwysig deall y maes prosiect rydych yn bwriadu gweithredu mewn perthynas ag ef a'r gwasanaethau cymorth sy'n gallu eich helpu yn y broses (mae rhai o'r rhain wedi'u rhestru isod yn nhabl 2). Anogir cyflenwyr i ymchwilio i'r materion economaidd a chymdeithasol sy'n effeithio ar awdurdodau contractio a'u cymunedau, a deall y materion hynny. Bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu eich cynnig am gontract ac o gymorth yn y gwaith o baratoi eich ymateb i'r tendr.

Mae Tabl 1 isod yn dangos y math o fudd y gallai sefydliad ofyn ichi ei gyflawni neu y gallech fod am ei gynnig fel rhan o'ch cyflwyniad am dendr.

Bydd y tendr yn nodi un o ddau ddull o sicrhau budd i'r gymuned - craidd neu anghraidd.

Dull anghraidd - Hwn oedd sail y cynllun peilot Gwerth Cymru a ddilynwyd yn 2006 ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio fel dull o sicrhau budd i'r gymuned. Caiff ei ffafrio yn aml gan y rheini sy'n newydd i'r broses ac, yn yr achos hwn, gellir cynnwys y gofynion cymdeithasol fel amodau contract, ond ni chânt eu hasesu ar y cam dewis na'r cam dyfarnu.

Gyda'r dull hwn, dilynir yr egwyddorion isod:

- **Cyfeirir at y gofynion cymdeithasol yn yr hysbyseb gychwynnol ar gyfer y contract a'u nodi fel amodau yn y contract a hysbysebir**
- **Ni chânt eu hasesu fel rhan o'r broses gaffael (ar y cam dewis na'r cam dyfarnu)**
- **Ni fydd yr awdurdodau contractio yn penderfynu beth gaiff ei gyflenwi, ond yn hytrach bydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r contractwr llwyddiannus i gytuno ar ganlyniadau ac amserlenni**

Dull craidd - Lle bo budd i'r gymuned wedi'i nodi fel rhan graidd o'r gofyniad, bydd yn rhan o gynnwys y contract a chaiff ei gynnwys yn y meini prawf dyfarnu. Yn yr achos hwn, mae'r Awdurdod Contractio yn prynu'r canlyniadau cymdeithasol a bydd angen iddo ystyried i ba raddau mae'r tendrau yn bodloni'r gofyniad. Bydd y meini prawf dyfarnu, felly, yn mynd i'r afael â'r lefelau ansawdd neu berfformiad o gymharu â'r gofynion penodedig. Yn unol â'r dull craidd, dilynir yr egwyddorion isod:

- **Caiff y budd ei gynnwys yn yr hysbyseb wreiddiol**
- **Bydd gofynion yr awdurdod contractio o ran budd i'r gymuned yn fanwl**
- **Caiff y tendrau eu hasesu o safbwynt bodloni gofynion yr awdurdod contractio o ran budd i'r gymuned**
- **Caiff ei gynnwys fel amodau yn y contract**

Mae'r pecyn cymorth 'Gallu Gwneud' yn enghraifft o ddull craidd. Datblygwyd hwn ar gyfer y Sector Tai i ategu'r buddsoddiad aruthrol yn Safonau Ansawdd Tai Cymru a'r gwaith o'u bodloni. Mae awdurdodau contractio sy'n defnyddio'r pecyn cymorth yn debygol o ofyn i gyflenwyr ddarparu 52 wythnos o hyfforddiant neu gyflogaeth am bob £1 miliwn o wariant contract er enghraifft.

Yn achos y ddau ddull, gofynnir i gyflenwyr lunio datganiadau o'u methodoleg fel rhan o'u cyflwyniad am dendr yn nodi manylion sut byddant yn sicrhau Budd i'r Gymuned mewn perthynas â gwaith caffael, cynllun neu brosiect penodol. Mae cwblhau datganiad o fethodoleg yn debygol o fod yn orfodol.

### **3. Dyfarnu Contract**

Bydd yn bwysig cysylltu â sefydliadau priodol a all eich helpu i gyflawni eich amcanion o ran budd i'r gymuned. Mae'r datganiad o fethodoleg a gyflwynir wrth ddychwelyd tendr yn debygol o fod yn rhan o'r contract, felly mae'n bwysig bod eich cyflwyniad yn realistig, wedi'i ystyried yn ofalus, ac y gallwch roi unrhyw gynigion a datganiadau a roddir i'r awdurdod contractio ar waith.

Cadw Cofnodion - Fel rhan o'r dystiolaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol, mae'n debygol y byddai cleientiaid yn ei gwneud yn ofynnol ichi gadw cofnodion o'r budd i'r gymuned rydych wedi'i gyflawni, yn benodol gwybodaeth am hyfforddeion, yr hyfforddiant a dderbyniwyd, gwybodaeth am gydraddoldeb, y cymorth a ddarparwyd, yr elfennau allweddol a gyflawnwyd, ac ati. Os ydych wedi dod i gysylltiad ag asiantaeth hyfforddi a chyflogi, efallai y byddant hwy yn gallu rhoi'r wybodaeth hon ichi.

### **4. Ar Ôl Dyfarnu**

Mae'n bwysig bod y contractwyr llwyddiannus yn mesur y canlyniadau cadarnhaol i'r cleient. Mae offeryn mesur buddiannau cymunedol wedi'i ddatblygu at y perwyl hwn a bydd ar gael gan y cleient.

# Astudiaethau Achos

Bydd cyflenwyr sy'n llwyddo i sicrhau budd i'r gymuned yn cael eu hannog i ddatblygu astudiaethau achos a rhannu arferion gorau i helpu'r rheini sy'n newydd i'r broses. Dylai unrhyw un sy'n dymuno darparu astudiaeth achos i'w gyhoeddi gysylltu â Gwerth Cymru - **[lisa.thomas-lewis@cymru.gsi.gov.uk](mailto:lisa.thomas-lewis@cymru.gsi.gov.uk)**



**Tabl 1 - Budd**

Mantais	Trwy	Y rhai fydd ar eu hennill
<b>Hyfforddiant a Chyflogaeth</b>	Cyflogaeth barhaol	Yn unol â chais yr Awdurdodau Contractio, pobl economaidd-anweithgar nodweddiadol
	Prentisiaeth	
	Lle hyfforddi	
	Profiad gwaith	
	Mentora	
<b>Cadwyn Gyflenwi</b>	Digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr	Mentrau bach a chanolig
	Y prif gontractwr yn hysbysebu cyfleoedd haen 1 ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.co.uk">www.gwerthwchigymru.co.uk</a>	Busnesau Lleol
	Talu is-gontractwyr yn brydlon	Cyflenwyr y trydydd sector
	Ystyried cyfleoedd ar gyfer ffatrioedd neu fusnesau sy'n derbyn cymorth*	Ffatrioedd a Busnesau sy'n derbyn cymorth
	Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r gadwyn gyflenwi	Cyflogeion

Mantais	Trwy	Y rhai fydd ar eu hennill
<b>Addysg</b>	Lleoliadau gwaith	Yn unol â chais yr Awdurdodau Contractio, pobl ifanc
	Datblygu cymwysterau wedi'u teilwra drwy gydweithio â cholegau lleol	Cymunedau lleol
	Gwirfoddoli mewn digwyddiadau ysgol/coleg - diwrnod gyrfaedd; diwrnod chwaraeon	Ysgolion lleol
	Ymweliadau ag ysgolion cynradd	Colegau lleol
	Diwrnodau gwirfoddoli	
	Rhaglen Profiad Gwaith y Ganolfan Byd Gwaith	Pobl ddi-waith 18-21 oed
<b>Mentrau Cymunedol</b>	Penodi swyddog cyswllt cymunedol	
	Gwasanaethau tirlunio ac adeiladu i adfywio ardaloedd cymunedol	
	Cymorth i grwpiau ieuenctid lleol neu grwpiau cymunedol eraill	
	Cylchlythyrau cymunedol	

**Tabl 2 - Cysylltiadau Allweddol**

Mantais	Trwy	Y rhai fydd ar eu hennill
<b>Hyfforddiant a Chyflogaeth</b>	Y Ganolfan Byd Gwaith	Swyddfeydd lleol ledled Cymru - gallwch gael mwy o wybodaeth oddi wrth Employer Direct 0845 6012001 neu o adran Cyflogaeth a Sgiliau gwefan Business Link <a href="http://www.businesslink.gov.uk">http://www.businesslink.gov.uk</a>
	Gall Sgiliau Adeiladu roi cyngor, canllawiau a chymorth	Wyn Pritchard, Cyfarwyddwr Sgiliau Adeiladu Cymru Ffôn: 0344 994 7000
	Working Links Cymru Cymru gyfan	Ross Watts, Ffôn: 07967717640 <a href="mailto:ross.watts@workinglinks.co.uk">ross.watts@workinglinks.co.uk</a> <a href="http://www.workinglinks.co.uk">www.workinglinks.co.uk</a>
	Gyrfa Cymru	Rhadffôn: 0800 1830283

Mantais	Trwy	Y rhai fydd ar eu hennill
<b>Cadwyn Gyflenwi</b>	Hysbysebu Haen 1	Nick Owen, Gwerth Cymru Ffôn:7870241623
	Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr	Y Gogledd - Menter a Busnes Y Canolbarth - Menter a Busnes Y De-orllewin - Siambr Fasnach y Canolbarth a'r Gorllewin Y De-ddwyrain - Menter Cymru
	Talu prydlon	www.promptpayment code.org.uk
	Ffatrioedd a Busnesau sy'n derbyn cymorth	Lyndon Tobin Hyrwyddwr y Sector 01792 512240 lyndon.tobin@swansea.gov.uk
	Adeiladu Arbenigrwydd Cymru	www.constructingexcellence.org.uk/regions/wales Ffôn: 029 2049 3322
<b>Addysg</b>	Gyrfa Cymru	Rhadffôn: 0800 1830283
	Ysgolion a cholegau lleol	
<b>Mentrau Cymunedol</b>	Awdurdodau Lleol	Yr Adran Datblygu Economaidd
	Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf	

## Rhagor o Ganllawiau

Gallwch weld rhagor o ganllawiau ar gwblhau tendrau lle mae recriwtio a hyfforddiant penodol wedi'i nodi yn:

[http://www.whq.org.uk/i2i/about\\_resources.php](http://www.whq.org.uk/i2i/about_resources.php)